Datganiad Strategaeth y Grant Datblygu Disgyblion

O 2022-2023 ymlaen, bydd angen i ysgolion gwblhau a chyhoeddi datganiad ar eu strategaeth Grant Datblygu Disgyblion (GDD). Gellir gweld hyn isod.

DATGANIAD STRATEGAETH Y GRANT DATBLYGU DISGYBLION

Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion ynghylch defnydd ein hysgol o'r GDD ar gyfer blwyddyn academaidd 2023 i 2024.

Mae'n amlinellu ein strategaeth, sut rydym yn bwriadu gwario'r cyllid yn y flwyddyn academaidd hon a'r effaith a gafodd gwariant y llynedd o fewn ein hysgol.

Trosolwg Ysgolion

Manylion	**Data**
Enw'r ysgol:	Ysgol Melin Gruffydd
Nifer y Disgyblion yn yr Ysgol	465
Cyfran (%) o ddisgyblion sy'n gymwys i'r GDD	4.19%
Dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwn	6.11.2023
Dyddiad y caiff ei adolygu	6.11.2024
Awdurdodwyd y datganiad gan	Caerdydd
Yn arwain ar y GDD	Gwyndaf Jones
Llywodraethwr sy'n arwain	Rhodri Jones

Trosolwg Cyllid

Manylion	**Swm**
Dyraniad cyllid GDD y flwyddyn academaidd hon	£ 24,150
Cyfanswm cyllideb y flwyddyn academaidd hon	£27,650

Rhan A: Cynllun Strategaeth

Datganiad o Fwriad

Mae'r Grant Datblygu Dysgu yn swm ychwanegol o arian sydd yn cael ei rhoi i ysgolion i gefnogi disgyblion a all fod o dan anfanteision oherwydd eu statws economaidd neu os ydynt yn cael eu edrych ar ôl neu mewn gofal.

Yn Ysgol Melin Gruffydd rydym yn gwneud defnydd effeithio o'r Grant Dysgu Disgyblion (GDD) drwy ddyrannu yr arian

mewn i dri categori sef.

1. Academaidd

2. Cyfoethogi
3. Lles

Canlyniadau a fwriedir

Mae hyn yn esbonio'r canlyniadau rydym yn anelu atynt **erbyn diwedd ein cynllun strategaeth presennol**, a sut y byddwn yn mesur a ydynt wedi'u cyflawni.

Canlyniad a fwriedir	Meini prawf llwyddiant
Academaidd Lleihau bylchau cyflawniad dysgwyr agored i niwed drwy'r canlynol. **<u>Adnoddau</u>** • Buddsoddi mewn adnoddau sydd yn datblygu addysg ein disgyblion ymhellach e.e Spelling Shed, Nessy **<u>Ymyrraethau</u>** • Adnabod grwpiau ymyraethol a sicrhau fod y disgyblion sydd yn gymwys am GDD yn derbyn ymyraethau perthnasol.	• Disgyblion yn datblygu yn academaidd ac yn gwneud y cynnydd disgwyliadwy. • Disgyblion yn datblygu sgiliau yn unol a'u hoedran. • Dal i fyny yn dilyn y pandemig. • Ymyrraethau penodol yn targedu gwenididau'r disgylion.
<u>Cyfoethogi</u> • Ymweliadau Addysgol • Gwersi Offerynnol Rydym yn defnyddio y grant GDD I gynnig gostyngiad sylweddol mewn costau ar gyfer ymweliadau addysgol e.e taith Llangrannog ac mewn costau gwersi offerynnol.	• Galluogi disgyblion gael yr un cyfleoedd a phawb arall. • Disgyblion yn datblygu yn gymdeithasol ac yn cael yr un profiadau a'u cyfoedion. • Disgyblion yn datblygu sgiliau a sgiliau bywyd pwysig
Lles Rydym yn defnyddio y Grant Datblygu Disgyblion i	• Disgyblion bregus yn cael y gefnogaeth maent eu hangen.

• Cyflogi swyddog teulu 4 diwrnod yr wythnos I gynnal sesiynau pellach gyda disgyblion bregus. • Rhoi mewn lle darpariaeth “Hafan Hapus ac yr Cwtsh” ble mae disgyblion yr Ysgol yn cael mynychu’r darpariaeth pan fod angen. Mae’r darpariaeth hwn yn cynnwys sesiynau ELSA/Therapi Celf / Therapi Lego a sesiynau galw mewn amser cinio.	• Disgyblion yn cael sesiynau addas I’w anghenion. • Disgyblion yn datblygu gwydnwch, sgiliau cymdeithasol, cydweithio. • Datblygu hunan hyder, sgiliau personol a hunan barch

Gweithgarwch yn y flwyddyn academaidd hon

Mae hyn yn rhoi manylion sut rydym yn bwriadu gwario ein GDD **y flwyddyn academaidd hon** i fynd i'r afael â'r heriau a restrir uchod.

Dysgu ac addysgu

Cost wedi'i chyllidebu: £3,500

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
Cyflogi cymhorthydd sydd yn darparu ymyraethau amrywiol ar gyfer ein disgyblion.	• Darparu ymyrraethau yn Cam Cynydd 2 yn dilyn y pandemic. • Data Ymyrraethau • Cynnydd yn llyfrau’r disgyblion.

Strategaethau ehangach (er enghraifft a lle bo hynny'n berthnasol, Iechyd a Lles, Cwricwlwm a Chymwysterau, Arweinyddiaeth a Chodi Dyheadau)

Cost wedi'i chyllidebu: £24,150

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
Cyflogi Swyddog Teuli i gefnogi ein dysgwyr bregus.	Swyddog Teuluyn cynnig sesiynau 1-1 a chwnsela i ddisgyblion sydd angen ymyrraeth bellach
Cymhorthydd Lles	Cydweithio yn agos gyda ein disgyblion bregus gan gynnal amrywiol ymyrraethau lles e.e therapi lego a chelf, hafan hapus, Y Cwtsh (sesiynau galw mewn)

Cyfanswm cost y ceisiadau: £ 27,650

Rhan B: Adolygiad o ganlyniadau'r flwyddyn academaidd flaenorol

Canlyniadau'r GDD

Mae hyn yn rhoi manylion yr effaith a gafodd ein gweithgarwch GDD ar ddisgyblion ym mlwyddyn academaidd 2022 i 2023.

2022-23

Mae'r Swyddog Teulu wedi cefnogi teuluoedd yn emosiynol ac yn ymarferol. Mae wedi cyfeirio at wasanaethau cymorth er mwyn helpu gyda budd- daliadau, rhianta a lles cyffredinol pan fod angen. Mae'n cynnal sesiynau ELSA i nifer fawr o ddisgyblion ar draws yr ysgol ac mae'r drws bob amser yn agored os yw disgybl yn poeni neu eisiau sgwrs. Mae hefyd yn monitro presenoldeb yr ysgol.

Yn dilyn llwyddiant y gwersi Cymraeg i Deuluoedd, dan ofal y swyddog teulu agorwyd Caffi Cymraeg ar gyfer teuluoedd Derbyn a Bl 1 er mwyn iddynt gael cyfle i gael sgwrs anffurfiol a dysgu geirfa berthnasol wrth wneud gweithgareddau gyda'u plant. Profodd hyn i fod yn llwyddiannus iawn a bydd yn parhau'r flwyddyn academaidd nesaf.

Mae'r cymorthyddion addysgu wedi sicrhau fod disgyblion wedi derbyn ymyraethau pwrpasol i gefnogi llythrennedd a rhifedd, ac mae'r disgyblion hynny wedi gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Rhaglenni a ddarperir yn allanol

Dylech gynnwys enwau unrhyw raglenni a brynwyd gennych yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol. Bydd hyn yn ein helpu i ganfod pa rai sy'n boblogaidd yng Nghymru.

Rhaglen	Darparwr
Darllen Co	Alex Knott
Nessy	Nessy
Traciwr	Prodeo LTD
Spelling Shed	Spelling Shed